**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 5 Rhagfyr 2023 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | P Downing | A J Jeffery |
| M H Jones | M B Lewis | R D Lewis |
| N L Matthews | T M White | R A Williams |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu |
| Sally-Ann Evans | cyfreithiwr arweiniol |
| Hayley Kemp | Arweinydd Tîm Ardal |
| Tom Evans | Rheolwr Creu Lleoedd a Strategol Cynllunio |
| Steve Smith | Arweinydd y Tîm Dylunio Trefol a Chadwraeth |
| Chris Dale | Arweinydd Tîm Mynediad i Gefn Gwlad (Hawliau Tramwy) |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): S E Keeton a/ac M S Tribe

---

### 32 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 33 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2023 fel cofnod cywir.

### 34 Penderfynu ar geisiadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Cyflwynwyd cais cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cais cynllunio y cyfeirir ato isod.

**(Eitem 1) - Cais Cynllunio 2023/2111/LBC - Gosod sgrîn yn llys 2 i gyd-fynd â llys 1 i wella'r system glyweledol yn neuadd y Ddinas.**
**Llysoedd (cais am ganiatâd adeilad rhestredig) yn Neuadd y Ddinas, St Helens Crescent, Brynmill, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Sylwer: Cymeradwywyd y cais a chafodd ei gyfeirio at CADW a Llywodraeth Cymru.

## 35 Arweiniad Cynllunio Atodol Newydd: Addasu Adeiladau Gwledig Traddodiadol.

Cyflwynodd y Rheolwr Creu Lleoedd a Chynllunio Strategol adroddiad a oedd yn crynhoi ac yn nodi canlyniadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ar fersiwn ddrafft o'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) a cheisiodd gymeradwyaeth gan aelodau i fabwysiadu fersiwn derfynol ddiwygiedig o'r CCA.

Darparwyd cyflwyniad PowerPoint a oedd yn crynhoi pwyntiau ac agweddau allweddol o'r adroddiad i'r Pwyllgor.

Yn dilyn y cyflwyniad, gofynnodd yr aelodau gwestiynau amrywiol a cheisiwyd eglurder ynghylch meysydd penodol yn yr adroddiad, ymatebodd swyddogion yn unol â hynny.

**Penderfynwyd**

1) Mabwysiadu CCA Addasu Adeiladau Gwledig Traddodiadol, fel yr atodir yn Atodiad A, fel y CCA ar gyfer y CDLl a fabwysiadwyd.

2) Bydd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas, neu swyddog priodol a ddirprwyir, yn cael ei awdurdodi i wneud unrhyw newidiadau argraffyddol, gramadegol, cyflwyniadol neu ffeithiol i'r CCA cyn iddynt gael eu cyhoeddi.

## 36 Cynllun Mynediad i Gefn Gwlad Drafft 2023-2033.

Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Mynediad i Gefn Gwlad adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y Cynllun Drafft at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus.

Amlinellwyd yr wybodaeth gefndirol ar gyfer y datblygiad o'r cynllun, y manylion a chrynodeb o'r rhannau gwahanol amrywiol o'r cynllun drafft a gynhwysir ynddo, a dylid cymryd y camau nesaf yn dilyn cymeradwyaeth o'r adroddiad drafft a manylwyd arnynt yn yr adroddiad.

Byddai'r cynllun yn cael ei gyflwyno ar gyfer cyfnod ymgynghori cyhoeddus 12 wythnos cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi iddo gael ei gymeradwyo.

Amlinellodd fyddai'r Awdurdod yn gallu cael mynediad at £25,000 o'r cyllid tuag at gynnal a chadw a gwella hawliau tramwy gan Lywodraeth Cymru os byddai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Cynllun Mynediad i Gefn Gwlad ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ac adroddir yn ôl i'r cyngor, fel y'i diwygiwyd, ar gyfer cymeradwyaeth derfynol.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.45 pm

**Cadeirydd**